## Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Ionawr 10fed 2018.



**Presennol.**

Cyng D.Morris,Cyng S.Roberts,Cyng G.Jones, Cyng G.Hughes, Cyng C.Dixon Cyng C.Edwards Cyng G.Edwards

**Ymddiheuriadau**

Cyng P.Jenkins.

**Datgan diddordeb.**

Neb

**Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 13eg Rhagfyr 2017**

Cyng Morris yn cynnig fod y cofnodion yn gywir gyda Cyng Roberts yn eilio.

**Materion yn codi:**

Llwybr Dolgoed-mae’r Clerc wedi trafod y mater hefo Liz Haynes (Cyngor Gwynedd).

Mae Liz a pherchenog y tir mewn trafodaeth ynglyn a datrus y broblem yn ymwneud ar arwyddion o gwmpas y bont ar llwybr cyhoeddus.

**Adroddiad y Cynghorydd Sir**

Ddim yn bresennol.

**Lawnsio Gwefan y Cyngor.**

Bydd y Clerc yn cyflawni’r camau canlynol;

- Cysylltu a’r Cambrian News er mwyn cael gwybodaeth ynglyn a’r Wefan yn y papur.
- Rhoi manylion y Wefan ar hysbysfyrddau lleol.

**Biniau halen.**

Mae'n debyg fod pob bin halen yr ardal yn eithaf llawn a nid oes eisiau eu llenwi.

Os bydd angen llenwi'r biniau mae manylion cyswllt swyddog Cyngor Gwynedd gan y Clerc.

**Materion ariannol.**

**Cyson Banc: Rhagfyr 2017**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn y Banc ar ddechrau'r Mis:** | | **£6319.67** |
| **Derbyniwyd:** | | |
| **Matt Ward** | | **£250.00** |
| **Taliadau:** | **Cyflog/Paye** | **£100.00** |
| | **Costau'r Wefan** | **£676.00** |
| **Yn y banc diwedd mis** | | **£5793.67** |

Arwyddodd swyddogion y cyngor y ffurflen archwilio.

Archwiliwr mewnol- Mae Mr John Roberts, archwilydd mewnol y cyngor wedi ymddeol a nid fydd yn edrych ar lyfrau y cyngor o hyn ymlaen.

Bydd y clerc yn gyrru llythyr ymrwymo i Luned Fon Jones o Gyngor Gwynedd a fydd yn cymryd drosodd gwaith Mr Roberts.

Mae cais y cyngor am braesept o £3000 am y flwyddyn ariannol nesaf wedi ei gyflwyno i Gyngor Gwynedd.

Derbyniwyd rhodd o £180 gan "Always aim high" wedi aelodau'r cyngor stiwardio ras yn Coed y Brenin.

O’r flwyddyn ariannol 2018-19 bydd y dull o adfer VAT yn newid i broses ar lein.

**Llythyrau & E-Bost**

9fed Ionawr 2018- derbyniwyd datganiad newyddion gan y Bwrdd Iechyd mewn perthynas a’r pynciau canlynol;

Amseroedd aros

Lefelau cysur

Triniaeth, preifatwydd ac urddas

Cyfarthrebu gan staff.

Nodwyd cynnwys y llythyr gan y cyngor

19ed Rhagfyr- derbyniwyd e-bost gan Lisa Aspinall ar rhan panel yr adolygiad annibynnol o’r sector cynghorau cymuned a thref yn cynnwys cylchlythyr diweddaraf.

Dim sylw gan y cyngor.

**Unrhyw fater arall.**

Nodwyd fod y CNC wedi bod yn agor ffosydd yn ardal Hendre Berfedd i atal dwr rhag gorwedd ar y ffordd.

Defibrillator cymunedol-mae aelodau’r cyngor yn awyddus (os yw cyllid a ysiwriant yn caniatau) prynu defibrillator ac i’w leoli ym mhentref Ganllwyd.

Clerc i wneud ymholiadau hefo’r Bwrdd Iechyd ynglyn y mater yma.